CYFRES A9

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 9: 1-19

ADNOD ALLWEDDOL
2 Corinthiaid 5: 17

Gwers 1 Anturiaethau Paul – 'Yr Erlidiwr'

Ydych chi wedi cael eich bwlio yn yr ysgol? Sut oeddech chi'n teimlo tuag at y bwli? Fyddech chi'n disgwyl i Dduw ddefnyddio'r math hwn o berson i wneud ei waith? Er ei fod yn swnio'n rhyfedd, fe wnaeth Duw ddefnyddio rhywun fel hyn i ddweud wrth bobl am Iesu. Sut allodd e wneud hynny? Roedd rhaid iddo newid bywyd y dyn yn llwyr!

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol 2

Iddew ifanc o'r enw Saul oedd hwn. (Newidiwyd ei enw i Paul wedyn.) Roedd yn credu'n gryf ei fod yn plesio Duw trwy fwlio (neu erlid) dilynwyr Iesu Grist. Rhoddodd arweinwyr yr Iddewon ganiatâd iddo eu harestio a'u rhoi yn y carchar.

C Ysgrifennwch enw'r ddinas roedd Saul yn mynd iddi ar yr arwydd. Yna, o dan yr arwydd, ysgrifennwch pam roedd e'n mynd yno. 2



Pan oedd Saul bron â chyrraedd pen ei daith, digwyddodd rhywbeth.

C Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn wir ai peidio:- 4

Trodd Saul yn ôl. ..... Gwelodd Saul olau o'r Nefoedd yn fflachio o'i gwmpas. .....
Syrthiodd Saul i'r llawr a chlywodd lais. ..... Llewygodd Saul. .....

C Rhowch ✓ i ddangos y gair sy'n disgrifio orau'r ffordd yr oedd Saul yn trin Iesu. 1

Canmol ☐ **Erlid** ☐

Roedd Saul yn arfer meddwl mai dyn cyffredin oedd wedi marw oedd yr Arglwydd Iesu. Ond sylweddolodd yn awr ei fod yn fyw a'i fod wir yn Fab Duw. Pan gododd Saul, roedd yn ddall a bu'n rhaid i'w ffrindiau afael yn ei law i'w arwain i Ddamascus.

C **Am faint o amser roedd Saul yn methu gweld? Tynnwch linell syth o'r bys i'r blwch cywir.**

	3 wythnos	
3 diwrnod		**3 awr**

1

C **Beth oedd enw'r disgybl y soniodd yr Arglwydd wrtho mewn gweledigaeth am Saul? Ysgrifennwch y llythrennau'n llawn.**

1

Roedd gan yr Arglwydd dasg arbennig i'r dyn hwn.

C **Llanwch y llythrennau coll (a, e, i, o, u, w, y) i gael gweld beth oedd y dasg.**



2

C **Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i weld beth roedd Saul yn ei wneud pan gyrhaeddodd Ananias**

O Dd W G E ï __ __ __ __ __ __

1

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam nad oedd Ananias yn fodlon mynd at Saul i ddechrau**

2

Roedd Duw wedi newid bywyd Saul ac roedd yn mynd i'w anfon ar genhadaeth arbennig.

3

C **Darllenwch adnod 15 ac ysgrifennu at bwy yr oedd i fod i fynd.**

1	2	3

1

C **Sut wnaeth Ananias drin Saul pan aeth ato i ddechrau?**

Os yw Duw'n gallu gwneud dyn newydd o rywun fel Saul, gall wneud yr un peth i chi.

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 9: 19-30

ADNOD ALLWEDDOL
Romans 1: 16

Gwers 2 Anturiaethau Paul – 'Problemau'

Ydych chi wedi clywed y dywediad: 'All llewpart ddim newid ei smotiau'? Rydyn ni'n defnyddio'r dywediad i ddisgrifio rhywun sy'n methu newid ei ffyrdd. Roedd pawb yn meddwl mai un fel hyn oedd Saul, ond llwyddodd Duw i'w newid. Wedyn, roedd Saul yn dymuno dweud wrth bawb am yr Arglwydd Iesu.

C **Lle oedd yr Iddewon yn addoli Duw yng nghyfnod Saul? Tanlinellwch yr ateb cywir** 1

EGLWYSI SYNAGOGAU PALASAU

C **Beth oedd Saul yn ei bregethu wrth yr holl bobl? Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael gwybod.** 1

__ __ __ __ / __ __ / __ __ __ / __ __ __

USEI / WY / AMB / WUD

Cafodd y bobl a glywodd Saul yn siarad sioc fawr.

C **Ysgrifennwch yn y swigen siarad y peth cyntaf a ddywedon nhw.** 2



Pregethodd Saul mor dda fel na allai neb anghytuno ag ef. Roedd llawer o'r Iddewon yn ei gasáu ac fe wnaethon nhw gynllun cyfrinachol.

C **Datgelwch y neges gôd trwy newid pob llythyren i'r llythyren sy'n dod ar ei hôl yn y wyddor.** 3



a a yn troi'n **b**,
b yn troi'n **c**,
c yn troi'n **ch**,
ch yn troi'n **d**,
d yn troi'n **dd**,
w yn troi'n **y**,
y yn troi'n **a** etc

Ddydd a nos, roedd yr Iddewon yn gwylio er mwyn dal Saul pe bai'n dianc trwy gatiau'r ddinas.

CYFRINACHOL

__ __ / __ __ __ __ __ /
e dd / u m y u m /
__ __ / __ __ __ __ __ /
m h / u w i h n /
__ __ __ __ __ __ ' __ /
ff y s h y th ' ph /
__ __ __ __ __ / __ ' __ /
d h m y rh y ' h
__ __ __ / __ __.
i y d dd e

2

C **Gorffennwch y llun i ddangos sut y dihangodd Saul o'r ddinas.**

C **Lle aeth Saul ar ôl dianc? Ysgrifennwch eich ateb ar yr arwydd.**



1

C **A gafodd Paul groeso cynnes? Rhowch ✓ neu ✗ i ateb y brawddegau isod:-**

Roedd y disgyblion yn falch i'w weld. _____

Roedd ofn ar y disgyblion. _____

Roedd y disgyblion yn credu bod Saul yn un o ddilynwyr Iesu. _____

3

C **Pwy ddaeth yn ffrind i Saul a mynd ag ef at yr apostolion? Mae ei enw wedi'i guddo o gwmpas ei benwisg.**



1

C **Ysgrifennwch yr adnod sy'n dweud beth ddywedodd ef am Saul a wnaeth i'r disgyblion newid eu meddyliau amdano.**

2

C **Cyn hir, roedd rhagor o broblemau'n wynebu Saul. Beth oedden nhw? Darllenwch adnod 29.**

1

C **I ble wnaeth y Credinwyr anfon Saul fel y gallai ddianc rhag y perygl? Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau hyn i gael gwybod.**



_____ _____ _____ _____ _____ _____

1

Er bod ganddo lawer o broblemau a bod pobl yn chwilio amdano i'w ladd, doedd ar Saul ddim cywilydd o Iesu Grist.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol. Roedd Paul yn credu hyn ac yn ei bregethu ym mhob man.**

2

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 13: 1-12

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 13: 12

Gwers 3 Anturiaethau Paul – 'Y Pregethwr'

Rai blynyddoedd wedyn, cwrddodd Saul a Barnabas eto yn Antiochia, dinas fawr ymhell o Jerwsalem. Yma, daeth llawer o bobl i gredu yn yr Arglwydd Iesu a chawsant eu galw'n Gristnogion am y tro cyntaf.

Cristion yw rhywun sydd wedi ymddiried yn yr Arglwydd Iesu i'w achub ac sy'n ei ddilyn.

C **Defnyddiwch y Darlleniad o'r Beibl i lenwi'r Grid Geiriau ag enwau proffwydi ac athrawon eglwys Antiochia.**

C	R	I	S	T	N	O	G	I	O	N

3

C **Beth oedd y dynion hyn yn ei wneud pan siaradodd Duw, yr Ysbryd Glân, â nhw? Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos pa rai o'r brawddegau hyn sy'n gywir:-**

3

Roedden nhw'n addoli'r Arglwydd. .....

Roedden nhw'n siarad â'i gilydd. .....

Roedden nhw'n ymprydio (yn mynd heb fwyd). .....

C **Ysgrifennwch beth ddywedodd yr Ysbryd Glân wrthynt.**

2

Cyn hir, roedd y dynion yr oedd Duw wedi'u dewis mewn cwch ar y ffordd i ynys Cyprus. Dyna lle cafodd Barnabas ei eni.



C **Ceisiwch ddatrys y Pos Geiriau i gael gwybod beth wnaeth Paul a Barnabas ar ôl cyrraeddd i Salamis.**

(Er enghraifft "Buont" yw B1 – rhes B ar draws a cholofn 1 i lawr.)

	1	2	3
A	Gair	cyhoeddi	yn
B	Buont	synagogau'r	Duw
C	Iddewon	yn	

B1	C2	A2	A1
B3	A3	B2	C1

2

CROSSWORD

C **Defnyddiwch eiriau o'r Darlleniad o'r Beibl i wneud y Croesair.**



I lawr

1. Roedd y dyn yma'n helpu Saul a Barnabas.
2. Enw'r gau broffwyd yn adnod 6.
5. Roedd _ _ _ _ _ _ Pawlus yn ddyn deallus.

Ar draws

2. Aeth y dyn yma gyda Saul.
3. Daethant i'r ynys hon (adnod 4).
4. Enw'r dyn drwg yn adnod 8.
6. Y man lle cwrddon nhw â Bar-Iesu.

7

C **Beth ddywedodd Saul fyddai'n digwydd i Elymas am ei fod yn llawn twyll a dichell? (Adnod 11)**



1

C **Darllenwch adnodau 11 a 12 a dweud beth ddigwyddodd nesaf i:-**

Elymas

Sergius Paulus

2

Erbyn i Saul a Barnabas adael Cyprus, roedd llawer o bobl wedi clywed y Newyddion Da am Iesu. Roedd rhai, fel Elymas, wedi'i wrthod ac eraill, fel Sergius Pawlus, wedi'i gredu (darllenwch yr Adnod Allweddol) ac wedi dod yn Gristnogion.

Beth yw'ch ymateb chi i'r Newyddion Da?

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 13: 13-16
a 42-52

ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 13: 49

Gwers 4 Anturiaethau Paul – 'Dinas wedi'i Rhannu'



Pam y mae oedolion yn treulio cymaint o amser yn darllen y papur neu'n gwylio neu'n gwrando ar y newyddion? Wel, am fod arnynt eisiau gwybod am y pethau pwysig sy'n digwydd yn y byd. Mae pobl yn cael gwybod am y newyddion yn sydyn mewn papurau newydd, ar y teledu a'r radio a dros y we. Roedd Saul wedi cael enw newydd erbyn hyn, sef Paul (darllenwch Actau 13:9) ac roedd ganddo ef a Barnabas newyddion cyffrous i'w adrodd. Yr enw ar y newyddion hwn yw "Yr Efengyl" sef y Newyddion Da am Iesu.

C Pe baen nhw'n ysgrifennu'r stori yn y papur newydd, beth fyddai'r pennawd? Llanwch y bylchau (ag a, e, i, o, u, w, y) i gael gwybod.



1

C Lle oedd Paul wedi bod yn pregethu? Tynnwch focs o gwmpas yr ateb cywir.

YN Y SYNAGOG AR Y STRYD MEWN EGLWYS

1

C Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau'n gywir ai peidio, ar ôl y cyfarfod, dyma'r bobl yn:-

Gweiddi'n gas arnynt. .....
Gofyn iddynt siarad y Sabath nesaf hefyd. .....
Gofyn iddynt adael y dref. .....

3

Roedd llawer o'r Iddewon yn awyddus i glywed rhagor a dyma nhw'n dilyn Paul a Barnabas ar hyd y stryd.

C Rhowch y llythrennau yn y swigen siarad yn y drefn gywir i gael gweld beth y cawsant eu hannog i'w wneud gan Paul a Barnabas.



nyglu thrw sar uDw
_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

2

Roedd gan yr Iddewon hyn ddiddordeb mawr yn yr hyn yr oedd Paul wedi'i bregethu. Nawr, roedd yn eu hannog i dderbyn yr Arglwydd Iesu'n llwyr.

1

C Y Saboth wedyn, pwy ddaeth i wrando ar paul a Barnabas yn Pregethu Gair Duw? Ticiwch yr ateb cywir.

Neb ❑ Ychydig o bobl ❑ Bron pawb ❑

C **Pan welodd yr Iddewon yr holl bobl, a llawer ohonyn nhw heb fod yn Iddewon, sut oedden nhw'n teimlo? Tynnwch linell trwy'r ateb anghywir.** 1

Yn falch ac yn hapus / Yn llawn cenfigen

Roedd Paul a Barnabas yn siwr fod y Newyddion Da am Iesu ar gyfer pawb.

C **Beth oedd ymateb y Cenhedloedd pan glywson nhw fod yr Efengyl ar eu cyfer nhw hefyd?** 2

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol i gael gwybod beth a ddigwyddodd pan bregethodd Paul a Barnabas y Newyddion Da am Iesu.** 2

Fel sy'n digwydd yn aml heddiw, roedd pobl y ddinas honno'n ymateb mewn gwahanol ffyrdd i'r Efengyl. Dyna drist yw meddwl bod yr Iddewon nad oedd yn credu yn Iesu, fel Elymas yn y wers ddiwethaf, yn ceisio cadw pobl eraill rhag credu hefyd!

C **Darllenwch adnod 50 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pa dri pheth a wnaeth yr Iddewon.** 3

C **Beth wnaeth Paul a Barnabas? Tanlinellwch yr ateb cywir.** 1

Ysgwyd dwylo Taflu cerrig at yr Iddewon Ysgwyd y llwch oddi ar eu traed

C **I ble'r aethon nhw? Ysgrifennwch eich ateb ar yr arwydd.** 1



C **A beth y cafodd y disgyblion eu llenwi?** 2

Er bod y disgyblion (y credinwyr) yn byw mewn dinas lle'r oedd llawer o bobl yn eu gwrthwynebu, roedden nhw'n gwybod bod Duw gyda nhw.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120